Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Estyn

2015-2016

## 1 Diben

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi prif waith Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Estyn yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016. Prif rôl y Pwyllgor yw darparu cyngor annibynnol i Brif Arolygydd EM a Swyddog Cyfrifo Estyn. Felly, yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi delio â'r prosesau strategol ar gyfer risg, rheoli a llywodraethu trwy ganlyniadau'r archwiliadau mewnol ac allanol yn ogystal â'r broses hunanarfarnu a phrosesau eraill. Mae gan y Pwyllgor rôl allweddol mewn diffinio agweddau ar y gwaith archwilio a monitro ymatebion rheolwyr i'r materion a godwyd.

1.2 Mae'r adroddiad yn disgrifio'r modd y bu i'r Pwyllgor gyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn ystod 2015/16 a chanlyniad y gwaith mewn perthynas â gwelliannau pellach wrth lywodraethu a rheoli'r sefydliad. Mae'r adroddiad wedi ei fwriadu i lywio Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifo a fydd yn cael ei gynnwys yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Estyn ar gyfer 2015/16.

## 2 Y Pwyllgor yn ystod 2015/16

2.1 Roedd aelodau o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Haydn Edwards | Cyfarwyddwr Anweithredol (hyd at Awst 2016) |
| Judith Fabian | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Arwel Thomas | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Rheon Tomos | Cyfarwyddwr Anweithredol |

Roedd aelodau Ex Officio yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Ann Keane | PAEM, Estyn (ymddeolodd 31 Mai, 2015) |
| Meilyr Rowlands | PAEM, Estyn (o 1 Mehefin 2015)* |
| Simon Brown | Cyfarwyddwr Strategol, Estyn |
| Phil Sweeney | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Estyn |
| Claire Morgan | Cyfarwyddwr Strategol Dros dro (o Fehefin 2015) |

* Roedd Meilyr wedi mynychu cyfarfodydd blaenorol yn ystod y cyfnod fel arsyllwr.

Gellir gweld cylch gorchwyl y Pwyllgor o fewn Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Estyn a dangosir tâl yr aelodau yng Nghyfrifon Adnoddau Blynyddol Estyn (mae'r ddwy ddogfen ar gael ar wefan Estyn).

2.2 Parhaodd Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu gwasanaeth Archwilio Allanol i'r Pwyllgor yn ystod 2015/16. Yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol, penodwyd RSM gan Estyn i ddarparu ei wasanaeth Archwilio Mewnol. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor, Rheon Tomos, yn aelod o'r tîm penodi.

2.3 Yn unol â'r hyn a drefnwyd, cyfarfu'r Pwyllgor ar 5 Mai 2015, 3 Gorffennaf 2015, 3 Tachwedd 2015 a 3 Chwefror 2016 ac fe gafwyd presenoldeb llawn yn y cyfarfodydd hyn gan yr holl aelodau. Mae'n arferol i gyfarfodydd ar ôl diwedd blwyddyn ystyried adroddiadau'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol flaenorol ac nid yw eleni yn eithriad. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r cyfnewid mewn darpariaeth Archwilio

Mewnol yn ystod 2015/16, trafodwyd mwy o adroddiadau na'r arfer mewn cyfarfodydd pwyllgor ar ôl diwedd blwyddyn. Nodir bod holl aelodau'r pwyllgor wedi mynychu'r cyfarfodydd hyn.

2.4 Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd ychwanegol eraill yn ystod y flwyddyn i ymateb i ddigwyddiadau neu faterion. Roedd cynrychiolwyr yr archwilwyr allanol a mewnol yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd a rhoddodd Michaela Benjamin (Estyn) gymorth ysgrifenyddol i'r Pwyllgor. Mynychodd aelodau eraill o staff Estyn y Pwyllgor pan oedd materion yn gysylltiedig â'u cyfrifoldebau yn cael eu trafod ac roedd rhai o staff uwch Estyn yn mynychu cyfarfodydd fel arsyllwyr.

2.5 Roedd safon yr adroddiadau, ymateb rheolwyr, olrhain argymhellion a chyfraniad holl aelodau'r Pwyllgor yn cael eu nodi'n gyson. Roedd aelodau'r Pwyllgor, sy'n gweithredu'n dda fel grŵp, yn parhau i holi cwestiynau perthnasol ac amserol. Mae gan aelodau'r Pwyllgor yr arbenigedd a'r profiad gofynnol.

2.6 Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi parhau i weithredu'n electronig ac fe gaiff yr holl bapurau eu cyflwyno i aelodau trwy allrwyd Estyn neu drwy atodiadau e-bost. Mae gliniaduron wedi bod ar gael i'r holl aelodau yn y cyfarfodydd. Fe wnaeth pawb a oedd yn bresennol arfarnu'r holl gyfarfodydd, ac roedd yr ymateb yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae adborth o'r fath ar ddiwedd cyfarfodydd, sy'n nodwedd o holl gyfarfodydd Llywodraethu Estyn, yn galluogi pawb sy'n bresennol i fynegi eu safbwyntiau, ac mae hyn yn arwain at welliannau o ansawdd da.

## 3 Amgylchedd rheoli

### 3.1 Archwilio Mewnol

3.1.1 Ar sail rhaglen waith gytûn (a sefydlwyd yn dilyn proses Asesiad Archwiliad Anghenion), fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg adolygu'r adroddiadau canlynol a ddarparwyd gan yr Archwilydd Mewnol (RSM).

| Adroddiadau | Gradd sicrwydd | Nifer yr argymhellion (gradd blaenoriaeth) |
|---|---|---|
| 1 Systemau Rheolaethau Ariannol Allweddol – Cyflogres a Rheolaeth Gyllidebol | Sylweddol | 2 (Isel) |
| 2 Rheoli Gwybodaeth | Sylweddol | 2 (Canolig)<br>3 (Isel) |
| 3 Asedau a Rhestrau Eiddo | Rhesymol | 7 (Isel) |
| 4 Sicrhau Ansawdd Arolygiadau | Sylweddol | 3 (Isel) |
| 5 Llywodraethu, Rheoli Risg a Sicrhau | Sylweddol | 1 (Canolig)<br>3 (Isel) |
| 6 Adolygiadau Dilysu Hawliadau Treuliau (x2) | Cydymffurfio | 1 (Canolig)<br>2 (Isel) |
| 7 Hapwiriad Dirybudd (x2) | Cydymffurfio | 1 (Isel) |
| 8 Olrhain Argymhellion (x2) | Dilyniant | 1 (Canolig)<br>4 (Isel) |

Yn ogystal â'r uchod, cwblhaodd RSM adolygiad ymgynghorol ar Reoli Prosiectau ar lefel uchel sy'n cael ei adolygu gan y Tîm Gweithredol ar hyn o bryd. Mae adolygiad pellach o gydymffurfio â Phensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y gweill hefyd.

3.1.2 Cynllunnir cwmpas Archwilio Mewnol er mwyn darparu lefel resymol o sicrwydd fod systemau llywodraethu a rheoli risg allweddol Estyn yn gweithredu'n effeithiol a bod rheolaethau mewnol cadarn ar waith. Gan gofio hyn, mae'n bleser dweud bod RSM wedi rhoi sicrwydd sylweddol i bob archwiliad ac eithrio un ohonynt, ac fe gafwyd sicrwydd rhesymol ynglŷn â'r archwiliad o Asedau a Rhestrau Eiddo. Dylid nodi nad oes unrhyw argymhellion lefel uchel wedi codi eleni y byddai wedi bod angen rhoi sylw iddynt ar frys. Roedd mwyafrif yr argymhellion yn rhai ymgynghorol ac yn peri risg isel ond cafwyd llond llaw o feysydd risg ganolig. Mae RSM wedi dweud eu bod yn fodlon ag ymatebion y rheolwyr i'r argymhellion hyn ac yn derbyn mewn rhai achosion y dylid sicrhau cydbwysedd rhwng lleihau risg a rhoi gweithdrefnau rheoli costus ar waith.

3.1.3 Nodwedd arall o gwmpas Archwilio Mewnol yw cynnal adolygiadau dilynol o argymhellion y cytunwyd arnynt yn flaenorol (ar sail yr argymhellion cytûn a nodwyd gan ein Harchwilwyr Mewnol blaenorol, Deloitte) ynghyd ag adolygiadau cydymffurfio neu hapwirio. Mae'r system olrhain ar gyfer yr argymhellion ym mhob adroddiad archwilio wedi parhau i gael ei defnyddio yn ystod y flwyddyn, ac mae'n cynnwys gwybodaeth fel dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu penodol, perchnogaeth, adroddiadau cynnydd gan reolwyr a ph'un a oedd y camau gweithredu wedi cael eu cwblhau gan Estyn a'u gwirio gan Archwilio Mewnol. Mae'n bleser nodi bod RSM wedi adrodd am lefel uchel o gydymffurfio, gan ganmol Estyn am lefelau gweithredu argymhellion blaenorol. Fel Pwyllgor, rydym hefyd yn ddiolchgar i RSM am ddarparu argymhellion diweddarach mewn rhai meysydd sy'n adlewyrchu newidiadau naill ai mewn gweithdrefnau neu arferion. Mae'r dull hwn yn ategu'r adolygiadau o systemau craidd eraill ac yn cynnig safbwynt newydd i'r broses archwilio.

3.1.4 Gofynnwyd yn ffurfiol hefyd yn ystod y flwyddyn am waith dilynol yn deillio o argymhelliad blaenorol ynghylch trylwyredd a diogelwch trefniadau TGCh Estyn gan ddarparwr asesu craffter arbenigol. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad cryno o'r canfyddiadau a roddodd sicrwydd cadarnhaol y gellir dibynnu ar drefniadau presennol.

3.1.5 Mae datganiad sicrhau Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2015-16 yn dod i'r casgliad '**Mae gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol**'. Mae RSM wedi rhoi sicrwydd nad oes unrhyw achos o wrthdaro buddiannau yr hoffent adrodd amdano a'u bod wedi cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus wrth ymgymryd â'u gwaith archwilio.

## 3.2 Archwilio Allanol

3.2.1 Cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru y ddogfen Cyflawniadau'r Archwiliad yn y cyfarfod ym Mai 2015 ar gyfer archwilio datganiad ariannol Estyn 2014/15. Eglurodd y ddogfen hon gyfrifoldebau cymharol Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru.

3.2.2 Adolygwyd y gwaith Archwilio ar gyfer cyfrifon 2014/15 yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yng Ngorffennaf 2015. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru, yn adroddiad ISA 260 i'r rheiny sydd â gofal am lywodraethu, eu bod yn bwriadu

**cyhoeddi barn archwilio ddiamod** a'u bod yn fodlon i PAEM fel Swyddog Cyfrifo gymeradwyo cyfrifon 2014/15. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at gamddatganiadau a gywirwyd i'r datganiadau ariannol, er gwybodaeth. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ar eu rhan nhw. Fe wnaethant nodi hefyd fod y **cyfrifon wedi cael eu cyflwyno yn unol â'r terfyn amser a safonau ansawdd,** ac, **nad oedd yr archwiliad yn nodi unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol**.

3.2.3 Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn credu bod materion yn deillio o'r archwiliad yn faterion cymharol ddibwys ac felly tynnodd sylw at y rhain mewn trafodaethau ar ôl yr archwiliad gyda'r tîm Cyllid yn hytrach na chyhoeddi Llythyr Rheoli ffurfiol. Rhoddwyd **barn ddiamod** i'r **datganiadau ariannol** ac fe'u llofnodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 15 Gorffennaf. Fe'u **gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 16 Gorffennaf 2015.**

3.2.4 Yn Chwefror 2016, cyflwynodd yr Archwilwyr Allanol eu Cynllun Archwilio ar gyfer 2015/16 ac amlygu rhai risgiau. Roedd y Cynllun hefyd yn cynnwys ffi'r Archwiliad ar gyfer 2015/16, a oedd yn ostyngiad bach o gymharu â 2014/15. Mae'r Pwyllgor o'r farn fod 59 diwrnod a'r ffi archwilio ddilynol, am archwiliad cymharol syml o gyfrifon Estyn, yn ymddangos yn eithafol.

## 4 Cydweithrediad rhwng Archwilio Mewnol ac Allanol

4.1 Cyflwynwyd datganiad i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio yng Ngorffennaf 2015 yn dangos y modd y mae'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn cyfathrebu a gweithio gyda'i gilydd i leihau lefel unrhyw waith wedi'i ddyblygu. Mae newid darparwr Archwilio Mewnol eleni wedi golygu y bu angen ailedrych ar y protocolau hyn a rolau priodol i wneud y gorau posibl o adnoddau archwilio. Mae RSM a Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi gwybod i'r Pwyllgor bod deialog a chydlynu parhaus wedi digwydd eleni gydag enghreifftiau o hyblygrwydd wrth gyflwyno gwaith TGCh, er enghraifft.

4.2 Mae'r Pwyllgor yn fodlon ag ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

## 5 Llywodraethu Corfforaethol

5.1 Arfarnwyd ansawdd y gwaith archwilio a gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio sawl dull gwahanol, sef:

- arfarniad ar ddiwedd cyfarfod
- olrhain y camau gweithredu a gytunwyd yn holl gyfarfodydd y Pwyllgor
- rhestr wirio hunanasesu wedi ei chwblhau gan aelodau*
- gwerthusiad blynyddol o Gyfarwyddwyr Anweithredol gan PAEM/Swyddog Cyfrifo
- adolygiad blynyddol o Gylch Gorchwyl
- cyfarfod blynyddol gyda'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol
- trafodaeth yn dilyn cyfarfodydd Cadeiryddion Pwyllgor Archwilio a Risg Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru

*Roedd hunanwerthusiad eleni yn cynnwys asesiad o berfformiad yn erbyn 33 o gwestiynau arfer dda yn deillio o nifer o ffynonellau arweiniad. Mae dadansoddiad o holiaduron a ddychwelwyd, a dderbyniwyd gan holl aelodau'r Pwyllgor, yn rhoi arwydd cadarnhaol fod y Pwyllgor yn gweithredu'n effeithiol gan fod pob un o'r atebion a roddwyd naill ai'n 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno'.

5.2 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio wedi cael ei ddosbarthu i'r holl aelodau gyda'r papurau er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar ei brif gyfrifoldebau. Cytunwyd i rai mân newidiadau yn ystod y flwyddyn (e.e. ychwanegu eitem i gynnwys adolygiad o broffil risgiau ariannol). Caiff Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Estyn ei adolygu'n rheolaidd yn y Bwrdd Strategaeth hefyd, ac fe gaiff Cylch Gorchwyl y Pwyllgor ei ddiweddaru fel y bo'n briodol.

5.3 Mae'r Datganiad Llywodraethu, a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn, wedi dod yn rhan ganolog o drafodaethau'r Pwyllgor ac mae'n rhoi manylion am lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol Estyn. Mae'r Datganiad Llywodraethu wedi bod ar agenda'r Pwyllgor trwy gydol 2015/16.

5.4 Mae hunanarfarniad blynyddol y Pwyllgor wedi arwain at sawl gwelliant dros y blynyddoedd. Rhoddwyd y camau gweithredu yn deillio o'r hunanarfarniad ym Mai 2013 ar waith ac mae'r aelodau wedi gwerthfawrogi mynychu cynhadledd Staff flynyddol Estyn a chyflwyniadau amrywiol a wnaed trwy gydol y flwyddyn gan swyddogion Estyn i gyfarwyddwyr anweithredol. Caiff anghenion hyfforddi a datblygu eu trafod ymhellach fel rhan o'r broses werthuso flynyddol a gynhelir gyda PAEM. Awgrymodd yr ymarfer hunanarfarnu yn Chwefror 2015 y dylid ystyried mynychu Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg eraill, fel rhan o drefniant "gefeillio" gyda chorff cyhoeddus arall. Mae pob un o'r 3 Chyfarwyddwr Anweithredol wedi mynychu safleoedd eraill a argymhellir erbyn hyn, a bydd y dysgu o'r broses hon yn cael ei ddadansoddi a'i drafod dros y misoedd nesaf.

5.5 Adolygwyd prosesau ymsefydlu aelodau newydd y Pwyllgor, a chymerwyd camau priodol eleni; mae'r Pwyllgor wedi parhau i hyrwyddo presenoldeb staff mewn cyfarfodydd i ddarparu cyfleoedd datblygu ar gyfer staff ac aelodau fel ei gilydd – rydym yn falch fod enghreifftiau o bresenoldeb o'r fath i'w gweld eto eleni.

5.6 Mae'r eitem sefydlog ar ddiweddariadau cyfreithiol a rheoleiddio gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn sicrhau bod yr aelodau'n cael eu hysbysu'n llawn am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar sefyllfa Estyn o ran y gyfraith, adrodd neu gydymffurfio, i'r graddau y mae'n effeithio ar waith y Pwyllgor. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol hefyd yn darparu diweddariadau rheolaidd gan Is-Grŵp Swyddogion Cyllid Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys unrhyw ohebiaeth berthnasol at y Swyddog Cyfrifo. Mae PAEM yn darparu diweddariad llafar ym mhob cyfarfod ar y datblygiadau yn Estyn ac unrhyw newidiadau allanol a allai effeithio ar waith a chyfrifoldebau'r Pwyllgor.

## 6 Risg a Thwyll

6.1 Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn fodlon fod gan Estyn Bolisi priodol ar Reoli Risg sy'n cael ei oruchwylio gan y Bwrdd a bod ei gofrestr risg yn adlewyrchu'n ddigonol y risgiau y mae Estyn yn eu hwynebu a'u heffaith debygol. Mae'r gofrestr risg hefyd

yn nodi'r camau rheoli a gymerwyd i liniaru a dileu'r risgiau. Gan fod aelodau'r Pwyllgor yn gwasanaethu fel cyfarwyddwyr anweithredol ar Fwrdd Estyn, gallant gael golwg dda ar risgiau a chymryd rhan uniongyrchol mewn trafodaethau am strategaethau a chamau gweithredu rheoli risg.

6.2 Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon ei fod yn cael ei hysbysu'n ddigonol am achosion o dwyll neu dwyll posibl pan fyddant yn codi a bod Estyn wedi rhoi digon o eglurder a hyfforddiant i staff ynglŷn â sut i ddelio ag achosion o'r fath. Rydym hefyd yn cael gwybod gan ein Harchwilwyr Allanol a Mewnol pan fydd twyll canfyddedig wedi cael ei nodi a sefydlwyd trefniant cysylltu priodol gyda'r swyddfa cymorth arbenigwyr twyll yn Llywodraeth Cymru.

## 7 Rhannu Arfer Dda

7.1 Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Chadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Risg y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru er mwyn trafod materion o ddiddordeb cyffredin a rhannu arfer dda yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd adborth o'r cyfarfodydd hyn i'r Pwyllgor.

## 8 Materion Ychwanegol

8.1 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi cael gwybodaeth ac wedi adolygu'r materion canlynol:

- crynodeb o'r prif newidiadau i Reoli Arian Cyhoeddus Cymru
- manylion am yr holl ildiadau hawl ac ymadawiadau
- Arweiniad FRC ar Yr Adroddiad Strategol
- Swyddfa Archwilio Cenedlaethol – Enghreifftiau o Arfer Dda mewn Adroddiadau Blynyddol
- Adroddiad blynyddol ymgynghorol ar gostau
- Datganiad Swyddfa Archwilio Cymru – Ymholiadau'r Archwiliad i'r rheiny sydd â gofal am Lywodraethu a Rheoli

## 9 Casgliad

9.1 Mae'r Pwyllgor wedi gweithredu yn unol â safon uchel yn ystod y flwyddyn ac wedi cael gwybodaeth briodol, reolaidd ac amserol am gynhyrchu cyfrifon adnoddau Estyn, ac yn benodol am amgylchedd rheoli Estyn. **Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn fodlon y gall y Swyddog Cyfrifo fod yn sicr i raddau helaeth wrth gwblhau'r Datganiad Llywodraethu fod sefyllfa Estyn o ran rheoli, risg a llywodraethu yn 2015-16 yn gadarn**.

## 10 Diolchiadau

10.1 Rydw i'n ddiolchgar i bawb sydd wedi mynychu'r Pwyllgor am eu gwaith a'u cyfraniad yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith Phil Sweeney a Michaela Benjamin, gyda chefnogaeth gan aelodau staff eraill, wedi bod yn ganolog i waith y pwyllgor, a gwerthfawrogir eu cyfraniadau. Rydw i hefyd yn ddiolchgar i Ann-Marie Harkin,

Anthony Barrett a Phil Pugh o Swyddfa Archwilio Cymru a Helen Cargill ac Alastair Campbell o RSM am eu cymorth a'u cyngor yn ystod y flwyddyn.

Rheon Tomos
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Estyn
Gorffennaf 2016